# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 19 Ebrill 2012 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Gwyneth Kensler, Dewi Owens (Cadeirydd) a Jane Yorke.
Aelodau Cyfetholedig ar faterion addysg – Mrs Gill Greenland; Ms. D. Houghton; Dr Dawn Marjoram a Mr John Saxon.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, Sally Ellis Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio; Wayne Wheatley Gweithiwr Cymdeithasol Addysg a Swyddog Diogelu Plant; Karen Evans Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiad; Alan Smith Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad; Carol Evans Swyddog Cynorthwyol Cynllunio a Pherfformiad

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Raymond Bartley, Joan Butterfield, Ann Davies, Carl Davies, Christine Evans a/ac Neville Hughes

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd dim datganiad o fudd personol neu fudd sy'n rhagfarnu wedi'i godi.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd dim materion brys wedi'u codi.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 8fed Mawrth 2012.

**Materion yn Codi –**

Tudalen 2 – Materion yn Codi (Tudalen 6 – Eitem Rhif 7 Y Cynllun Mawr) – Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu, ar ran y Cynghorydd Christine Evans, ei bod hi wedi ymateb i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn yn dilyn ymateb a dderbyniwyd ynghylch darparu brechiadau HPV i fechgyn. Derbyniwyd llythyr o gydnabyddiaeth oddi wrth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau y byddai ateb llawn yn cael ei anfon allan o fewn 17 diwrnod gwaith.

Tudalen 3 – Eitem Rhif 5 Twristiaeth – Tynnodd Dr Dawn Marjoram, Aelod Cyfetholedig, sylw'r Pwyllgor at y ffaith nad oedd Safle Treftadaeth y Byd yn Nyffryn Dyfrdwy wedi'i grybwyll yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Strategaeth Ranbarthol Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru. Roedd Dr Marjoram yn gyfrannwr pwysig tuag at gael statws Safle Treftadaeth y Byd i'r ddyfrbont a'r gamlas yn Llangollen a chynigiodd ei harbenigedd ar y mater hwn os bydd angen.

Tudalen 4 – Eitem Rhif 5 Twristiaeth – Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cynghorydd Meirick Davies yn gofyn am gael gwybod beth sy'n digwydd ynghylch y cynnydd gyda'r mentrau cynlluniedig i annog siopwyr safle Tweedmill i ymweld â rhannau eraill o'r sir. Gofynnodd y Cadeirydd fod pob cynghorydd yn cael gwybod beth sy'n digwydd hefyd.

Tudalen 6 - Eitem Rhif 6 Newidiadau i'r Rhaglen Cefnogi Pobl Ranbarthol a Chenedlaethol - Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio (CC: DLlCh) ddiweddariad. Nid oedd yr adroddiad ar gael ar gyfer y cyfarfod hwn gan nad oedd y mater wedi'i gwblhau ac roedd y newidiadau arfaethedig dal yn destun trafodaeth. Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu fod adroddiad y Newidiadau i'r Rhaglen Cefnogi Pobl Genedlaethol wedi'i amserlennu yn y rhaglen waith ar gyfer mis Mai 2012.

Tudalen 9 – Eitem Rhif 9 Adolygiadau Gwasanaethau Strategol y GIG – Cododd y Dr Dawn Marjoram, Aelod Cyfetholedig, fater Hyfrydle. Gofynnodd am ddiweddariad ar y mater hwn gan nad oedd gwybodaeth wedi dod i'r fei. Dywedodd Dr Marjoram hefyd y byddai Hyfrydle ag angen caniatâd cynllunio. Cytunai'r Cadeirydd ac argymhellodd fod angen diweddariad ar Hyfrydle.

Tudalennau 10/11 - Eitem Rhif 10 Cwestiynau'r Aelodau - Yn dilyn cais y Cynghorydd Raymond Bartley am fwy o wybodaeth am yr archwiliadau iechyd blynyddol i bobl gydag anableddau dysgu, darllenodd y Cydlynydd Craffu yn uchel ymateb a dderbyniwyd trwy ebost oddi wrth Gyfarwyddwr Strategaeth ac Ymgysylltu Cynorthwyol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Sally Baxter. Byddai copi o'r ebost yn ei anfon allan at aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth iddynt.

***PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed Mawrth 2012 fel rhai cywir. Hefyd, oherwydd bod y ddau gyfarfod blaenorol heb gworwm, cadarnhawyd y cofnodion canlynol fel rhai cywir:-*

*(a) Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 26ain Ionawr, 2012.*

(b) *Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau Arbennig a gynhaliwyd ar 9fed Chwefror, 2012.*

## 5 ARCHWILIAD BLYNYDDOL O DDIOGELU PLANT MEWN ADDYSG – FFRAMWAITH SICRHAU ANSAWDD

Cyflwynodd Arweinydd Tîm Gweithwyr Cymdeithasol Addysg (ATGCA) adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn diweddaru'r Pwyllgor ar weithgaredd diogelu o fewn addysg ac ar y cynllun gweithredu diogelu yr ymgymerwyd ag ef mewn ymateb i adroddiad Cyngor Sir Benfro Medi 2011.  Gofynnwyd i'r Pwyllgor am eu cymeradwyaeth a'u cefnogaeth i'r camau a gymerir yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r meysydd gwan a glustnodwyd yn yr archwiliad blynyddol o ysgolion ac i fynd i'r afael â materion diogelu ar draws gwasanaethau.

Eglurodd ATGCA i'r Pwyllgor fod newidiadau arwyddocaol wedi digwydd yn ystod y 12 mis blaenorol yng Nghymru.  Yn dilyn adroddiad Cyngor Sir Benfro (Medi 2011), a ddefnyddiwyd fel templed o feysydd sy'n peri pryder, codwyd materion at lefel Gweinidogol.  Ysgrifennodd y Gweinidog at bob Awdurdod Lleol yn gofyn am i archwiliadau gael eu gwneud.

Mae pob atgyfeiriad yn cael ei gopïo'n awtomatig i'r ATGCA i'w archwilio.  Os nad yw'r atgyfeiriad yn cael ei ystyried yn ddigon difrifol i gael ei drin gan yr Uned Diogelu, neu fod y rheswm dros yr atgyfeiriad yn aneglur, mae'r ATGCA yn cysylltu â'r ysgol i gael gwybod y rhesymau paham y gwnaed yr atgyfeiriad.   Roedd rhaglen dreigl o hyfforddiant blynyddol yn cael ei darparu'n awr ar gyfer pob ysgol. Anfonir manylion staff sy'n methu mynychu hyfforddiant yn ôl i'r Pennaeth i sicrhau y gwneir yr hyfforddiant o fewn y flwyddyn ysgol.

Roedd prosiectau a gyflenwir drwy gyllid Cymorth ar ran yr Awdurdod Lleol hefyd wedi'u gwneud yn ymwybodol o bwysigrwydd materion diogelu a'r angen i ddatblygu polisïau diogelu.  Roedd hyn wedi arwain at wneud archwiliad o bolisïau amddiffyn a diogelu plant yr asiantaethau.
Gan fod cyllid Cymorth yn dod i ben, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Demograffeg, Lles a Chynllunio (CC: DLlCh) y byddai contractau newydd a ddyfernir dan y fenter Teuluoedd yn Gyntaf yn pennu'r angen am brosesau AD i ddelio â materion amddiffyn plant ac y byddai diogelu'n ffurfio rhan o'r broses monitro contractau.

Cyhoeddodd Dr Dawn Marjoram, Aelod Cyfetholedig mai'i  diddordeb arbenigol oedd plant gydag anghenion arbennig ac roedd plant anabl yn arbennig o agored i gael eu cam-drin.  Gofynnodd Dr Marjoram a oedd staff sy'n gweithio mewn ysgolion anghenion arbennig a hefyd staff mewn ysgolion prif ffrwd, sy'n delio â phlant anghenion arbennig, yn derbyn hyfforddiant penodol, yn arbennig y staff hynny a oedd yn gofalu am blant gyda phroblemau cyfathrebu.  Cadarnhaodd yr ATGCA fod yna staff gyda gwybodaeth arbenigol yn gweithio mewn ysgolion ac y byddent yn gallu adnabod unrhyw amgylchiadau a oedd yn achos pryder.  Cyflëwyd yn y sesiynau hyfforddi nad cyfrifoldeb y staff yn unig oedd diogelu'r plant ond ei fod hefyd yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, a oedd yn cynnwys llywodraethwyr ysgolion.  Roedd gan y gwasanaethau allweddol o fewn Cyngor Sir Ddinbych yr wybodaeth berthnasol i ddelio â phroblemau.

Cadarnhaodd CC:DLlCh fod y Cyd-Banel Asesu Risg yn cyfarfod ddwyaith yr wythnos a bod cynrychiolwyr Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu ac Iechyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.  Roedd gwybodaeth yn cael ei chydgasglu ynghylch y math o gymorth y gall plentyn neu deulu fod â'i angen, fel y gallai tîm gael ei adeiladu o gwmpas y teulu i'w cefnogi.

Holodd Dr Marjoram os oedd plentyn o du allan i'r sir yn cael ei addysgu mewn ysgol yn Sir Ddinbych, sut fyddai hyn yn effeithio ar y broses? Eglurodd ATGCA fod yna system glir i ddelio â phlentyn o'r tu allan i Sir Ddinbych. Roedd disgwyliad gan y tîm rheoli y byddid yn cysylltu â'r Awdurdod Lleol, roedd hyn yn sicrhau bod Sir Ddinbych yn bod yn rhagweithiol ac nid yn adweithiol. Roedd y tîm rheoli wedi mynychu hyfforddiant Lefel 2 yn ddiweddar er mwyn mwyhau ymwybyddiaeth yn cynnwys pan fyddir yn penodi cynrychiolwyr i gyrff llywodraethol.

Eglurhaodd ATGCA fod yr archwiliad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu Plant. Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd, roedd unrhyw broblemau'n cael eu hymgorffori wedyn o fewn y rhaglen hyfforddi.

Cwestiynodd y Cynghorydd Gwilym Evans y system TG a oedd yn ei lle ar hyn o bryd a pha un a oedd yn ddigonol i ddelio â'r problemau fel y bônt yn codi. Eglurhaodd ATGCA petai problem yn codi ynghylch y system TG, mai rhyngwyneb arall fyddai cysylltu dros y ffôn. Roedd gan bob ysgol rifau cysylltu ar gyfer Gwasanaethau Plant i alluogi atgyfeiriad llafar. Felly, ni fyddai problemau gyda''r system TG yn achosi unrhyw oedi yn yr atgyfeirio.

***PENDERFYNWYD** dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater canlynol am y rheswm ei fod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

Roedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu hefyd ar gyfer staff Hebryngwyr Croesfannau Ysgol, a oedd wedi'i addasu'n arbennig i gwrdd â'u hanghenion, a staff Gwasanaeth Cerdd Ysgol William Mathias yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Mae rheolwyr a staff Canolfannau Hamdden wedi cael hyfforddiant. Roedd staff y Gwasanaeth Ieuenctid i fod i gael hyfforddiant o fewn y mis nesaf. Holodd John Saxon, Aelod Cyfetholedig, a oedd Penaethiaid yn derbyn hyfforddiant ychwanegol. Cadarnhaodd ATGCA fod Penaethiaid yn derbyn hyfforddiant lefel 1 a lefel 2 hefyd. Roedd hyfforddiant Lefel 1 a 2 yn rhoi ymwybyddiaeth ehangach o ddiogelu o amgylch ysgolion, e.e. staffio, recriwtio, AD a lles plant.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cludiant ysgol a hebryngwyr. Cadarnhaodd ATGCA fod ei staff yn gweithio'n agos â'r Adran Drwyddedu. Gofynnodd Dr Marjoram a oedd strwythur yn ei le ar gyfer hebryngwyr ac os felly, y dylai fod yn ei le ar gyfer gyrwyr tacsis/bysus ysgol hefyd. Cadarnhaodd ATGCA fod gyrwyr tacsi, wedi'u trwyddedu gyda Sir Ddinbych, yn cael archwiliad CRB manylach. Roedd archwiliadau CRB yn cael eu gwneud ar bob gyrrwr bws hefyd gan yr Adran Cludiant Teithwyr. Hefyd os oedd yna yrrwr tacsi gwaharddedig o sir arall, byddai'r wybodaeth yma'n cael ei hanfon ymlaen gan sicrhau nad oedd y gyrrwr gwaharddedig yn gallu gweithio mewn sir arall. Roedd prosesau o'r fath i'w gwneud yn fwy trwyadl a chadarn ar ôl cyhoeddi Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Holodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Dewi Owens, ynghylch gyrwyr tacsis sy'n gweithio heb hebryngwr ysgol. Eglurhaodd ATGCA nad oedd hi'n orfodol i hebryngwyr ysgol fynd gyda phob plentyn sy'n teithio mewn tacsi.

Gofynnodd John Saxon, aelod Cyfetholedig a oedd pob bws/coetsh ysgol wedi'u ffitio â chamerâu. Nid oedd ATGCA yn gwbl siŵr ynghylch y pwynt hwn ac awgrymodd y dylid gofyn am eglurhad gan Reolwr Adran Cludiant Teithwyr i gael gweld a oedd hynny'n wir. Awgrymodd Dr. Marjoram hefyd fod angen edrych i mewn i blentyn yn diogelu plentyn ar gludiant ysgol.

Cadarnhaodd ATGCA i'r Pwyllgor ei bod yn rhaid i bob ysgol ymgymryd ag archwiliad blynyddol, ym mha un yr oedd 127 o gwestiynau ag angen ymatebion. Roedd yr wybodaeth yma'n cael ei hanfon at ATGCA, a oedd yn archwilio'r wybodaeth wedyn. Fe wnaeth y Pwyllgor:

***BENDERFYNU*** *yn amodol ar y sylwadau uchod:*

(a) *nodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn i fynd i'r afael â materion diogelu ar draws gwasanaethau, a chymeradwyo camau yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r meysydd gwan a glustnodwyd yn yr archwiliad blynyddol o ysgolion i fynd i'r afael â materion diogelu ar draws gwasanaethau; a*

(b) *gofyn i lywodraethwyr ysgolion fonitro'n rheolaidd fod gan holl staff a gwirfoddolwyr eu hysgol archwiliadau diogelu cyfredol perthnasol yn eu lle a'u bod wedi cael yr hyfforddiant diogelu sy'n berthnasol i'w swydd.*

## 6 DARPARU CERDDORIAETH MEWN YSGOLION

Cyflwynodd Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant (PGYCh) adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) i ddiweddaru'r Aelodau ac i ennill cefnogaeth barhaus i gynnydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen cydweithredol i ddatblygu cynigion mewn perthynas â darparu addysg gerddorol mewn ysgolion, neu fel arall gynigion Sir Ddinbych i ddarparu addysg gerddorol.

Amlinellodd PGYCh yr adroddiad ac eglurodd gyd-destun a hanes darparu cyllid ar gyfer cerddoriaeth mewn ysgolion.

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater canlynol am y rheswm ei fod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

O ran y cyfle ar gyfer cerddoriaeth i bob myfyriwr, yn hanesyddol, roedd cyllideb ar gael i ysgolion i gael at ddarpariaeth gan Ganolfan Gerdd William Mathias (CGWM). Roedd pryder wedi'i godi gan rai ysgolion ynghylch sut oedd y cyllid hwnnw wedi'i ddosbarthu. Roedd cyllid yn cael ei ddirprwyo o fformiwla hy poblogaeth o fewn yr ysgol a chanran y myfyrwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Os oedd niferoedd mwy o blant yn gofyn am fynediad at addysg gerddorol, byddai rhaid i naill ai ysgolion neu rieni wneud cyfraniad. Bu problem oherwydd anghysondebau ynglŷn â thaliadau rhieni. Teimlid hefyd na ddylai rhai ysgolion fod yn rhoi cymhorthdal o'u cyllideb pan nad oedd ysgolion eraill yn gwneud defnydd o'r

cyfleuster hwn.  Oherwydd yr anghysondebau hyn, roedd angen ateb tymor hir cynaliadwy.

Roedd myfyrwyr eithriadol o dalentog yn Sir Ddinbych ond roedd angen i fyfyrwyr gael eu cydnabod a'u hannog beth bynnag oedd eu gallu cerddorol.  Roedd cyfradd dderbyn cerddoriaeth yn cael ei monitro ac offerynnau cerdd yn cael eu darparu. Enghraifft o fuddsoddiad mawr oedd Ysgol Christchurch yn Y Rhyl. Roedd yr ysgol mewn ardal o amddifadedd ond roedd hi'n bwysig annog plant iau i mewn i gerddoriaeth.  Roedd yn holl-bwysig fod y gyllideb yn cael ei defnyddio yn y ffordd orau bosibl.

Hysbysodd Dr Dawn Marjoram, Aelod Cyfetholedig, y Pwyllgor fod cerddoriaeth, mewn perthynas ag ysgolion arbennig, yn cael ei thrin fel therapi.  Fodd bynnag, roedd rhai cyflawniadau nodedig ym maes addysg gerddorol mewn ysgolion arbennig.  Eglurodd PGYCh, o ran annog ysgolion i gyfranogi, nad oedd dim gwahaniaethu rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, roedd cydraddoldeb yn cael ei sicrhau.   O ran gwir weithgaredd cwricwlaidd ynglŷn â cherddoriaeth fel therapi, roedd hyn yn fater hollol wahanol.

Holodd John Saxon, aelod Cyfetholedig, a oedd unrhyw gymorth i rieni a oedd yn dymuno prynu offerynnau.  Cadarnhaodd PGYCh fod yna gynllun hurio gydag opsiwn i brynu.  Roedd yna bobl a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun yn llwyddiannus.

Roedd y contract gyda William Mathias yn cael ei adnewyddu bob blwyddyn ac roedd yn galluogi'r Cyngor i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.  Roedd hefyd yn galluogi'r Cyngor i ddarparu addysg gerddorol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd roedd gan Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy gontractau gyda Williams Mathias, tra bod gan Sir y Fflint a Wrecsam eu hatebion eu hunain. Ar hyn o bryd roeddid yn ceisio ateb ledled Gogledd Cymru a dyma oedd ffocws y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gadeiriwyd gan Bennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg Conwy.  Fe wnaeth y Pwyllgor:

***BENDERFYNU**:*

*(a) parhau i gefnogi'r gwaith sy'n mynd ymlaen mewn perthynas â datblygu cerddoriaeth o fewn y Sir;*
*(b) cefnogi'r cynigion ar gyfer yr adolygiad ehangach o gyllido darpariaeth cerddoriaeth yn Sir Ddinbych; a*
*(c) bod canfyddiadau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cerddoriaeth Gogledd Cymru i'w hadrodd i'r Pwyllgor maes o law.*

**Yn y fan hon (10.55am) torrodd y cyfarfod am egwyl lluniaeth.**

**RHAN 1**

**11.05am  Yn y fan hon, gadawodd yr Aelodau Cyfetholedig y cyfarfod.**

Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod y cyfarfod heb gworwm o'r fan yma oherwydd nad oedd digon o aelodau'r Pwyllgor yn bresennol. Cytunwyd i fynd ymlaen â'r cyfarfod ar y sail fod unrhyw argymhellion i'w cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 7 PECYN CYMORTH LLYWODRAETHU'R BARTNERIAETH

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (PCBPh) a'r Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Cynorthwyol (SCPhC) adroddiad ar y cyd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch Pecyn Cymorth Llywodraethu Partneriaeth y Cyngor. Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol oedd wedi gofyn am y pecyn cymorth mewn ymateb i adolygiad Gwasanaethau Archwilio Mewnol y Cyngor Sir ar Lywodraethu Partneriaethau ym mis Tachwedd 2011. Daethpwyd â'r Pecyn Cymorth i'r Pwyllgor fel rhan o'r broses ymgynghori. Roedd y Pecyn Cymorth yn manylu ar sut y gellid gwneud gwelliannau i'r fframwaith a'r trylwyredd o'i gwmpas. Roedd cyfnod helaeth o ymgynghori ar fynd ar gogyfer â sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer y fframwaith drafft. Roedd y cyfnod ymgynghori i ddod i ben ar ddiwedd Ebrill, 2012.

Gwnaeth y Cynghorydd Gwilym Evans y sylw fod rhywfaint o gynnwys y Pecyn Cymorth yn bodoli'n barod o fewn y Cyfansoddiad. Dywedodd y Cynghorydd Evans hefyd fod angen i'r Pecyn Cymorth fod yn fwy cryno. Byddai Aelodau newydd eu hethol yn derbyn llawer iawn o ddeunydd darllen, felly byddai dogfen fyrrach yn haws i'w chymryd i mewn.

Cytunwyd bod y Pecyn Cymorth yn ddogfen hirfaith ac y gallai hwyrach fod yn fwy cryno, a fyddai'n ei gwneud yn fwy cyfeillgar.

Cadarnhaodd PCBPh y byddai Cofrestr Partneriaethau'n cael ei diweddaru bob blwyddyn. Byddid yn cysylltu â phob un o'r Partneriaethau bob blwyddyn, ac wedi hynny byddai'r gofrestr yn cael ei diweddaru.

Tynnodd CC:DLlCh at sylw PCBPh fod Cydweithrediad, y Compact a diogelu i gyd yn risgiau mawr ond nad oedd yn ymddangos fod y matrics arwyddocâd yn adlewyrchu'r lefel briodol o risg iddynt ac y dylid, felly, roi sylw i hyn. Awgrymodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler fod diffiniad o beth yw Partneriaethau a beth yw Cydweithrediad i'w lunio. Gwnaeth PCBPh y sylw fod Partneriaethau a Chydweithrediad yn gorgyffwrdd ambell dro. Fe wnaeth y Pwyllgor:

***BENDERFYNU*** *yn amodol ar fod yr argymhellion uchod yn cael sylw, cymeradwyo'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Partneriaethau drafft a'r Atodlen Weithredu sy'n mynd gydag ef.*

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am farn yr Aelodau ar ddarpar raglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol. Roedd Blaenraglen Waith ddrafft (Atodiad 1); Blaenraglen Waith y Cabinet (Atodiad 2); a Chynnydd gyda Phenderfyniadau'r Pwyllgor (Atodiad 3) wedi'u rhoi ynghlwm wrth yr adroddiad.

Cododd y Cydlynydd Craffu fater eitem a oedd wedi'i threfnu'n amodol yn y rhaglen waith ar gyfer y cyfarfod ar 31ain Mai ar y Prosiect Gofal Cartref Cydweithredol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd gwaith ymchwiliol i'r maes arbennig hwn wedi datgelu nad oedd dim cyfleoedd yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer cydweithredu, gan fod meysydd pwysau bob sir yn wahanol ac felly nid oeddynt yn eu cynnig eu hunain i unrhyw fath o gontractio bloc. Cytunwyd na fyddai'r eitem hon yn cael ei chynnwys ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod yr 31ain Mai. Awgrymodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Demograffeg, Lles a Chynllunio (CC:DLlCh) fod darparu gofal cartref mewn ardaloedd gwledig a chyfleoedd posibl i gydweithredu gydag awdurdodau lleol eraill yn y maes hwn i'w hystyried mewn cyfarfod i ddod. Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu y byddai hi'n codi'r mater gyda Phennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes.

Gofynnodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler fod Hyfrydle i'w roi ar raglen waith y dyfodol i'w ystyried. Awgrymodd y Cydlynydd Craffu y gall fod yn fwy buddiol yn y lle cyntaf i adroddiad "gwybodaeth" gael ei ddarparu cyn cyfarfod mis Mai.

Cyfeiriodd y Cydlynydd Craffu at Raglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen. Roedd wedi'i gytuno y dylai pob un o'r tair prif ffrwd waith (ffrwd waith Manwerthu a Chanol y Dref; ffrwd waith Twristiaeth a Llain yr Arfordir a'r Strategaeth ar gyfer Gorllewin Y Rhyl) gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Cymunedau i'w trafod.

Cododd y Cynghorydd Gwilym Evans fater Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu. Bu'r Grŵp yn cynnal cyfarfodydd am y 12 mis blaenorol, ond nid oedd dim cofnodion ar gael. Cadarnhaodd Cydlynydd Craffu y byddai hi'n chwilio i mewn i hyn.

Cyfeiriodd CC:DLlCh at Raglen Waith Craffu Cymunedau i ddod ble'r oedd eitem ar gyfer cyfarfod mis Hydref "Trafnidiaeth Gyhoeddus o fewn y Sir (yn cynnwys TAITH a thrafnidiaeth wledig)". Roedd y Cyfarwyddwr o'r farn y dylai'r eitem hon gael ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau mewn gwirionedd. Ymrwymodd y Cydlynydd Craffu i godi'r mater yng Ngrŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu yr wythnos ganlynol. Ymrwymodd hi hefyd i edrych pryd fyddai'r cynigion ar gyfer Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru yn debygol o fod ar gael i'w hystyried a phryd fyddai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol mewn sefyllfa i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y diwygiadau a'r ceisiadau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Waith.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Nid oedd dim adroddiadau gan gynrychiolwyr Pwyllgorau wedi'u derbyn.

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Dewi Owens, ei ddiolch i'r Cynghorydd Gwilym Evans am ei holl gyfraniad a gwaith yn ystod ei amser fel cynghorydd sir.

Ar ran yr Aelodau estynnodd y Cynghorydd Jane York ei diolch i'r Cydlynydd Craffu am ei gwaith caled a'i chefnogaeth dros y 4 blynedd ddiwethaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm